# Adolygiad Dilynol o Reoli Gwastraff – Cyngor Caerdydd

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4760A2025

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor yn gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad ar reoli gwastraff a gyhoeddwyd gennym yn 2022, ond bod gwaith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael yn llawn â hwy. Mae'r Cyngor yn rhoi ei strategaeth ailgylchu ar waith ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ei gynlluniau i wella ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu, ond nid yw perfformiad ailgylchu wedi cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, sy'n creu'r risg o gael cosbau.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022 7

# Adroddiad cryno

## Crynodeb


### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff trefol yng Nghymru. Gall Llywodraeth Cymru godi cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio. Y targed ar gyfer 2019-20 oedd 64% a'r targed ar gyfer 2024-25 yw 70%. Roedd perfformiad Cyngor Caerdydd (y Cyngor) yn 2023-24 yn 60.1% ac mae'n amcangyfrif na fydd yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70% tan 2026-27.

2 Mae perfformiad ailgylchu'r Cyngor gyda'r isaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod perfformiad ailgylchu'r Cyngor yn well na pherfformiad ailgylchu dinasoedd tebyg yn Lloegr.

3 Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 1** isod, mae gan y Cyngor hanes o berfformiad ailgylchu isel o'i gymharu â thargedau ailgylchu statudol Cymru.


**Arddangosyn 1: gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd, neu a gompostiwyd, Cyngor Caerdydd, rhwng 2017-18 a 2023-24**




Ffynhonnell: Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol fesul awdurdod lleol, StatsCymru

4 Mae cyfanswm y gwariant ar wastraff yng Nghaerdydd yn uwch nag yn unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru ac mae ei wariant y pen wedi cynyddu'n fras yn y pum mlynedd ddiwethaf (ac eithrio 2021-22 pan wnaeth leihau). Fodd bynnag, fel a ddangosir yn **Arddangosyn 2** isod, mae gwariant net y Cyngor ar wastraff y pen ymhell islaw cyfartaledd Cymru ac roedd gyda'r isaf yng Nghymru yn 2022-23 a 2023-24.

**Arddangosyn 2: gwariant net ar wastraff y pen (£) ar gyfer Cyngor Caerdydd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth fesul awdurdod lleol a blwyddyn a gwariant net ar wastraff o StatsCymru

5 Rydym wedi cynnal dau adolygiad o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn y Cyngor. Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom fwrw golwg ar drefniadau'r Cyngor i leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a chynyddu cyfraddau ailgylchu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Canfuom fod ffocws y Cyngor ar ddatrys materion gweithredol hirsefydlog, a oedd yn golygu nad oedd yn gallu gwella ei berfformiad ailgylchu. Dim ond megis dechrau ydoedd o ran penderfynu beth fyddai ei gyfeiriad yn y dyfodol o ran ei strategaeth ailgylchu, sut y byddai'n cyrraedd yno a beth allai ei gostio.

6 Yn 2022, fe gynhaliom ni adolygiad pellach i ystyried sut yr oedd y Cyngor yn bwriadu lleihau gwastraff a gwella ei berfformiad ailgylchu. Canfuom fod gan y Cyngor gyfraddau ailgylchu isel o'i gymharu â gweddill Cymru a bod angen iddo weithredu ar frys i wella ei berfformiad ailgylchu.

7 Diben ein hadolygiad dilynol yn 2024 oedd deall y cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022.

## Yr hyn a ganfuom

8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r argymhellion yn ein hadroddiad ar reoli gwastraff a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022?

9 Mae **Arddangosyn 3** yn nodi crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r pedwar argymhelliad yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022. Rydym wedi barnu mai 'gwaith ar y gweill' yw statws pob un o'r argymhellion.

10 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor yn gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad ar reoli gwastraff a gyhoeddwyd gennym yn 2022, ond bod gwaith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael yn llawn â hwy.

11 Mae'r Cyngor wrthi'n rhoi ei strategaeth ailgylchu ar waith ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ei gynlluniau i wella ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu, ond nid yw perfformiad ailgylchu wedi cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru gan greu'r risg o gael cosbau.

# Adroddiad manwl

## Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022

**Arddangosyn 3: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022**

**Argymhelliad 1 – Dylai'r Cyngor roi strategaeth ar waith i ddwyn gwelliant sylweddol yn y modd y darperir y gwasanaethau a chynyddu ei gyfradd ailgylchu fel mater o frys.**
**Statws: gwaith ar y gweill**

**Mae'r Cyngor wrthi'n rhoi ei strategaeth ailgylchu ar waith, ond er bod ansawdd deunyddiau a gyflwynir i'w hailgylchu wedi gwella, mae perfformiad yn dal yn is na thargedau Llywodraeth Cymru.**

**Canfyddiadau o'r adolygiad dilynol hwn:**

1. Datganodd Cyngor Caerdydd ei bod hi'n Argyfwng ar yr Hinsawdd ym mis Mawrth 2019, ac ers hynny mae wedi bod yn gweithio tuag at ddod yn sefydliad a dinas sy'n garbon niwtral erbyn 2030, fel a ddatgenir yng ngweledigaeth y Cyngor, Caerdydd Un Blaned. I ategu'r weledigaeth hon, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo Strategaeth Ailgylchu'r Cyngor 2022-25, sef Glanach a Gwyrddach, ar 28 Medi 2022 (y strategaeth) ac mae'r Cyngor yn y broses o roi'r strategaeth hon ar waith.
2. Dechreuodd y Cyngor gyflwyno casgliadau ailgylchu sy'n golygu gwahanu deunyddiau ar garreg y drws i unedau eiddo preswyl, ond mae ar ei hôl hi lle mae'r amserlen yn y cwestiwn. Mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno gyda tharged i'w gwblhau 100% erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Bu oedi wrth ei gyflwyno oherwydd caffael a gweithgynhyrchu cerbydau i roi cymorth i gasglu deunyddiau wedi eu gwahanu i'w hailgylchu. Cafodd gweithredu diwydiannol rhwng mis Medi 2023 a mis Chwefror 2024 effaith ar yr amser a gymerodd i gyflwyno'r cynllun hefyd.
3. Fe wellodd y Cyngor ei berfformiad ailgylchu o 58.19% yn 2021-22 i 61.57% yn 2022-23. Roedd ei berfformiad ar gyfer 2023-24 yn 60.1%, sy'n ostyngiad bach mewn perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, nad yw'n anarferol pan geir newid i ddulliau casglu gwastraff. Felly, nid yw rhoi'r

**Arddangosyn 3: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o’r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022**

gyfundrefn gasglu newydd ar waith wedi cael yr effaith fwriadedig ar wella cyfraddau ailgylchu, ac mae’r Cyngor yn dal heb gyrraedd y targed ailgylchu gwastraff statudol o 64%, a osodwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed ailgylchu o 70% ar gyfer 2024-25 felly disgwylir y bydd yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru’n cyrraedd hwn o fewn y flwyddyn. Ar ddechrau 2024-25, yn seiliedig ar ddata perfformiad anarchwiliedig heb ei wirio, mae’r perfformiad ailgylchu yng Nghaerdydd yn dangos gwelliant, gyda 66.52% yn chwarter 1 a 65.7% yn chwarter 2, felly mae gan y Cyngor gryn dipyn o ffordd i fynd cyn y bydd yn cyrraedd y targed newydd, ac yntau’n amcangyfrif y bydd yn gwneud hynny erbyn diwedd 2026-27, ddwy flynedd wedi i’r targed newydd ddod i rym.
5. Er nad yw perfformiad ailgylchu’r Cyngor wedi cyrraedd y targed statudol, mae ansawdd y gwastraff wedi ei ailgylchu a gesglir wedi gwella ers iddo roi casgliadau ar waith sy’n golygu gwahanu deunyddiau i’w hailgylchu ar garreg y drws. Bu gostyngiad sylweddol yn y gyfradd halogi o 20% i 3%, sy’n gadarnhaol ac yn helpu i wella’r rhagolygon ar gyfer creu incwm trwy wella deunyddiau ailgylchadwy. Er enghraifft, mae’r gwasanaeth wedi cael incwm ychwanegol o werthu gwydr a fydd yn cael ei ychwanegu at y gyllideb sylfaenol.
6. Mae perfformiad ailgylchu’r Cyngor yn dal i fod gyda’r isaf yng Nghymru, ond mae agweddau ar ei ddemograffeg yn cyflwyno heriau sylweddol. Mae cyfran uchel o boblogaeth y ddinas (16.2%) yn fyfyrwyr ac mae llawer o adeiladau’n uchel iawn neu’n Dai Amlfeddiannaeth (30%), sy’n cyflwyno heriau i storio a chasglu deunyddiau i’w hailgylchu. Mae’r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddealltwriaeth am y materion hyn mewn partneriaeth gyda WRAP[1] ac i ymgysylltu â’r cymunedau hynny (gweler **Argymhellion 3 a 5** isod), ond nid yw hyn yn trosi’n berfformiad ailgylchu gwell ar hyn o bryd.
7. Mae Gwastraff Masnach Cyngor Caerdydd wedi rhoi rheoliadau ailgylchu i fusnesau ar waith ar gyfer 3,050 o fusnesau ledled Caerdydd. Mae’r fenter hon yn ategu’r nod i wella ailgylchu gan fusnesau yng Nghaerdydd ac yng Nghymru. Er y bu gwelliannau ym mherfformiad ailgylchu busnesau, mae’r lefelau is hyn o ailgylchu gan unedau eiddo nad ydynt yn aelwydydd o’i gymharu ag ailgylchu gan aelwydydd yn parhau i gael effaith negyddol ar berfformiad ailgylchu Caerdydd ar y cyfan.

[1] Elusen gofrestredig Brydeinig yw WRAP (Rhaglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau - Waste and Resources Action Programme). Mae’n gweithio gyda busnesau, unigolion a chymunedau i gyflawni economi gylchol, trwy eu helpu i leihau gwastraff, datblygu cynhyrchion cynaliadwy a defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o’r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022**

8. Mae’r Cyngor yn wynebu risg o orfod talu cosb ariannol am beidio â chyrraedd targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru. Gallai methu â rhoi’r cynllun gweithredu o fewn ei strategaeth ar waith olygu bod y Cyngor yn cael cosb ariannol o £1.8 miliwn, am berfformiad ailgylchu o 58.19% yn 2021-22 o’i gymharu â tharged o 64%. Mae’r Cyngor wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i nodi ei gynnydd a’i heriau wrth gyflawni ei strategaeth. Ar adeg ein hadolygiad ni, roedd y Cyngor yn disgwyl i glywed a fyddai’n cael cosb am beidio â chyrraedd targed 2021-22. Gallai’r Cyngor gael dirwy am bob blwyddyn nad yw’n cyrraedd y targed statudol. Gan gydnabod hyn, mae gan y nodwedd ailgylchu a gwastraff ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor risg Ganolig/Ambr.

**Argymhelliad 2 – Dylai’r Cyngor sicrhau ei fod yn dyrannu’r adnoddau y mae eu hangen i roi ei strategaeth ailgylchu ar waith yn ei gynllun ariannol tymor canolig.**
**Statws – gwaith ar y gweill**

**Mae’r Cyngor wedi dyrannu adnoddau i gyflawni agweddau ar ei strategaeth ailgylchu, ond mae’n disgwyl am gadarnhad o grant gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhai cynigion arwyddocaol sydd wedi’u bwriadu i helpu i gryfhau cynaliadwyedd y gwasanaeth.**

**Canfyddiadau o’r adolygiad dilynol hwn:**

9. Mae’r Cyngor wedi neilltuo adnoddau i gyflawni agweddau ar ei strategaeth ailgylchu. Er enghraifft, mae wedi buddsoddi oddeutu £10 miliwn mewn fflyd casglu gwastraff newydd, i roi cymorth i gyflwyno casgliadau sy’n golygu gwahanu deunyddiau i’w hailgylchu ar garreg y drws ‘i wella ansawdd deunyddiau i’w hailgylchu a gyflwynir gan drigolion’.
10. Fel arwydd o’r flaenoriaeth a roddir i wella ailgylchu, fe wnaeth y Cyngor ddiogelu’r gwasanaeth gwastraff rhag toriadau i’r gyllideb yn 2024-25. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae’r Cyngor yn rhagweld bwlch o £148 miliwn yn ei gyllideb dros y tymor canolig, ac mae gwastraff ac ailgylchu’n cael eu hystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill y Cyngor, wrth i’r Cyngor archwilio sut y gall bontio’r bwlch yn ei gyllid.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022**

11. Mae parhau i weithio mewn partneriaeth gyda WRAP wedi cynorthwyo'r Cyngor i fodelu'r gofynion o ran adnoddau'n fwy effeithiol i roi elfennau allweddol o'r strategaeth ar waith.
12. Ceir trefniadau gweithio integredig rhwng swyddogion yn y gwasanaeth a swyddogion cyllid corfforaethol, i ddeall yn well beth y mae angen ei wneud i gyflawni'r strategaeth, i oleuo asesiad mwy cywir o'r gofyniad o ran adnoddau.
13. Mae'r Cyngor yn rhagweld costau cyfalaf a refeniw ar gyfer y gwasanaeth, ac yn monitro amrywiannau'n fisol yn seiliedig ar gasglu data gwell, gan ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith mwy effeithiol i fonitro tunelledd a chostau ariannol a phroffilio'r rhain i'r dyfodol.
14. Ar adeg ein gwaith maes ni, nid oedd y Cyngor wedi cael cadarnhad o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru i helpu i roi cymorth i gyflawni ei strategaeth ailgylchu, er enghraifft i ariannu cost darparu cynwysyddion a sachau.
15. Mae strategaeth ailgylchu'r Cyngor yn amcanu at leihau gwastraff gweddillol. Mae'r Cyngor yn archwilio opsiynau i gyflawni hyn gan hefyd sicrhau sefyllfa ariannol gynaliadwy. Nid oes unrhyw benderfyniadau polisi wedi cael eu gwneud eto.

**Argymhelliad 3 Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn deall y risgiau mewn perthynas â rhoi'r strategaeth ailgylchu ar waith a chymryd camau gweithredu priodol i liniaru'r risgiau hynny. Dylai hyn gynnwys datblygu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu gyda thrigolion a threfniadau llywodraethu a goruchwylio effeithiol gyda chynghorwyr ac uwch swyddogion.**

**Statws – gwaith ar y gweill**

**Mae'r Cyngor yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi ei strategaeth ailgylchu ar waith ond mae cyfle i wella trefniadau adrodd wedi eu cynllunio ar gyfer aelodau a'r cyhoedd.**

**Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu i roi cymorth i gyflwyno ei gasgliadau sy'n golygu gwahanu gwastraff ar garreg y drws ac mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid i geisio hybu mwy o gyfranogiad mewn ailgylchu.**

**Arddangosyn 3: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022**

**Canfyddiadau o'r adroddiad dilynol hwn:**

16. Mae gwastraff ac ailgylchu wedi eu cynnwys fel risg yng nghofrestr risgiau Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd y Cyngor. Mae hon yn cael ei diweddaru'n fisol. Mae uwch swyddogion hefyd yn trafod risgiau prosiectau cysylltiedig gydag aelodau'r Cabinet, fel y bo angen.
17. Mae ailgylchu a rheoli gwastraff wedi cael eu huwchgyfeirio i'r gofrestr risgiau corfforaethol, a adolygir yn chwarterol gan yr Uwch Dîm Rheoli. Cafodd y gofrestr ei hystyried ddiwethaf gan y Cabinet ym mis Medi 2024. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn adolygu'r gofrestr risgiau ddwywaith y flwyddyn.
18. Canfuom fod aelodau'n cael trosolwg o berfformiad ailgylchu, ond o ystyried lefel perfformiad ailgylchu a'r risg o gosbau ariannol, gallai fod ffocws mwy rheolaidd a manwl ar berfformiad gan y Cabinet. Mae'r Cyngor yn datgan yn ei Strategaeth Ailgylchu y dylai'r modd y cyflawnir y strategaeth gael ei adolygu gan y Cabinet a Phwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn flynyddol, i fonitro costau a chynnydd tuag at dargedau gwastraff ac ailgylchu. Cafodd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ei ddiweddariad diwethaf ar ailgylchu a gwastraff ym mis Ionawr 2024 a'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2023. Ers hynny, buwyd yn adrodd ar berfformiad ailgylchu wrth y Cabinet ar lefel uchel iawn, fel rhan o adroddiadau'r Cyngor ar gynnydd yn erbyn ei Amcanion Llesiant, ac fe gafodd aelodau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd eu briffio ar berfformiad mewn sesiwn breifat ar 14 Tachwedd 2024. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw drefniadau wedi eu cynllunio i adrodd ar berfformiad gwastraff ac ailgylchu am weddill 2024-25, sydd felly'n cyfyngu ar y cyfle i aelodau a thrigolion herio perfformiad sy'n creu risg o sbarduno cosbau ariannol gan Lywodraeth Cymru.
19. Canfu ein hadolygiad diwethaf nad oedd trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn cynnwys bwrdd rheoli rhaglen gyda chynrychiolaeth o blith aelodau etholedig, uwch swyddogion a WRAP, fel yr oedd hi gyda chynghorau eraill y mae WRAP wedi gweithio gyda hwy. Canfuom fod y Cyngor, ers hynny, wedi sefydlu bwrdd rhaglen gwastraff ac ailgylchu, sy'n cynnwys uwch swyddogion y Cyngor, cynrychiolwyr o WRAP a Llywodraeth Cymru. Y Bwrdd Rhaglen sy'n penderfynu a ddylai penderfyniadau gan Swyddogion fynd ymlaen i gael eu cymeradwyo naill ai trwy sianeli penderfynu Swyddogion, y Cabinet neu'r Cyngor trwy'r trefniadau dirprwyo yn y Cyfansoddiad.
20. Mae'r strategaeth ailgylchu'n cynnwys cyfeiriadau at bwysigrwydd hysbysu trigolion yn gyson ac ymgysylltu'n gyson â hwy. Ers hynny mae swyddogion wedi datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu benodol gyda WRAP, ar gyfer newidiadau i drefniadau ailgylchu aelwydydd yn seiliedig ar ganlyniadau ymgynghori â thrigolion. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gweithio gyda WRAP i ddatblygu pecyn cyfathrebu i drigolion gan gynnwys llythyrau, llyfrynnau, atodiadau rhydd, gyda chynnwys cyfatebol ar y we i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022**

21. Penododd y Cyngor swyddogion ymgysylltu lleol a gyllidwyd trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a gyflwynodd sesiynau allgymorth yn y cymunedau i gefnogi trigolion trwy'r newidiadau mewn dulliau casglu.
22. Yn fwy diweddar, mae swyddogion wedi ymgysylltu ag awdurdodau Addysg Bellach ac Uwch i drafod sut y gallant annog myfyrwyr i ailgylchu, megis yr ymgyrch Caru Caerdydd Cyn i Chi Fynd i fyfyrwyr. Mae hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod pan fo myfyrwyr yn symud allan, gan eu hannog i ailddefnyddio ac ailgylchu eitemau nad oes arnynt mo'u heisiau mwyach, ond nid yw hyn wedi arwain at wella cyfranogiad myfyrwyr mewn ailgylchu.

**Argymhelliad 4 – Rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu dull integredig a thymor hwy o reoli gwastraff. Dylai hyn ystyried:**

- **datblygiadau polisi gan Lywodraeth Cymru ar wastraff ac economi gylchol;**
- **nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sy'n ategu amcanion ehangach y Cyngor; lleihau gwastraff ac atal gwastraff; a hefyd**
- **yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys mynd ati i gynnwys ei gymunedau a chryfhau integreiddio â chynlluniau a pholisïau eraill**

**Statws – gwaith ar y gweill**

**Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu dull integredig a thymor hwy o fynd ar drywydd gwastraff ac ailgylchu, a ategir gan ei waith gyda WRAP a Llywodraeth Cymru, ond mae effeithiau ehangach ei strategaeth ailgylchu sy'n ategu amcanion llesiant y Cyngor wedi cael eu diffinio'n llai eglur.**

**Canfyddiadau o'r adolygiad dilynol hwn:**

23. Mae'r Cyngor yn ystyried datblygiadau polisi cenedlaethol. Mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, WRAP a phartneriaid eraill i gyd-fynd â pholisïau a mentrau ailgylchu a rheoli gwastraff ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi darparu enghreifftiau o sut y mae'n gweithio tuag at ddatrysiadau tymor hwy yn unol â 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Gwastraff Cymru (2010)', a 'Mwy Nag Ailgylchu – Strategaeth i

**Arddangosyn 3: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022**

wneud Economi Gylchol Cymru yn Realiti (2021)'. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys gweithgareddau i gefnogi economi gylchol yng Nghaerdydd, datblygu cynllun peilot ar gyfer cadw eitemau a deunyddiau mewn warysau a'u dosbarthu, a datblygu Cyfleuster Trin Deunyddiau.

24. Mae cydweithio gyda rhanddeiliaid megis WRAP, awdurdodau Addysg Bellach ac Uwch, busnesau lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector yn mynd rhagddo, i ddatblygu dulliau ataliol o leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a gwella ailgylchu ac ailddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo caffis atgyweirio'r trydydd sector a rhoi eitemau ar fenthyg gyda Benthyg[2] ac eraill.
25. Ceir enghreifftiau pellach o'r Cyngor yn ceisio lleihau ac atal gwastraff. Mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau megis Cadwch Gymru'n Daclus[3] a mentrau fel City to Sea[4], i greu cyfleoedd i gymunedau a thrigolion ailgylchu'n lleol trwy ehangu Parthau Ailgylchu Cymunedol ledled y ddinas, lle gall trigolion ailgylchu eitemau fel llyfrau, eitemau trydanol bychain, tecstilau a phlastigau caled. Mae gan y Cyngor fentrau i leihau'r defnydd o blastigau, megis ailgylchu podiau coffi a darparu ffynhonnau i ail-lenwi â dŵr. Mae hyn yn dangos ymhellach ei fod wedi mabwysiadu ac yn hyrwyddo egwyddorion yr economi gylchol.
26. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n ddatganedig yn Strategaeth Ailgylchu'r Cyngor ac mae'n tanategu ei ddull cyflawni. Fodd bynnag, mae effeithiau ehangach ei strategaeth ailgylchu, megis lleihau allyriadau $CO^2$, sy'n gyson â'r nodau yn ei strategaeth Carbon Sero Net 2030 'Caerdydd Un Blaned' wedi eu diffinio a'u meintioli'n llai eglur.
27. Mae'r Cyngor wedi datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu y bydd yn bwrw ymlaen â hwy fel rhan o ddiweddaru ei Gynllun Datblygu Lleol yn 2026. Bydd hyn o gymorth i ddatblygu dull integredig o fynd ar drywydd ailgylchu a rheoli gwastraff ar draws gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â datblygu tai. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau mynediad gwell at gyfleusterau ailgylchu mewn datblygiadau tai, yn enwedig mewn gwasanaethau gwastraff cymunol, ac i helpu i fynd i'r afael â lefelau uchel o wastraff bwyd a gardd mewn gwastraff gweddillol sy'n digwydd yn barhaus.

[2] Benthyg – sefydliad sy'n cefnogi rhwydwaith o gymunedau ac yn eu helpu i ddatblygu model Llyfrgell o Bethau gan hybu'r arfer o ailddefnyddio.
[3] Cadwch Brydain yn Daclus – Elusen yw Cadwch Brydain yn Daclus sy'n gweithio i wella'r amgylchedd, dileu sbwriel a rhoi terfyn ar wastraff.
[4] City to Sea – mae City to Sea yn rhedeg ymgyrchoedd i atal llygredd plastig yn y tarddle, trwy gysylltu ein gweithredoedd â'n cefnforoedd.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022**

**Argymhelliad 5**

**Dylai'r Cyngor barhau i archwilio sut y mae sefydliadau eraill yn cyflawni deilliannau ailgylchu gwell a defnyddio'r wybodaeth hon i wella ei berfformiad ei hun a llunio ei strategaeth gwastraff tymor hwy.**

**Statws – gwaith ar y gweill**

**Darparodd y Cyngor enghreifftiau sy'n dangos sut y mae'n archwilio'r hyn y mae sefydliadau eraill yn ei wneud i gyflawni deilliannau ailgylchu gwell, ond nid yw'r gwaith hwn wedi datblygu ddigon i lunio ei strategaeth hirdymor ar gyfer ailgylchu.**

**Canfyddiadau o'r adroddiad dilynol hwn.**

28. Er bod y Cyngor wrthi'n archwilio'r dulliau sydd gan sefydliadau eraill i wella ei berfformiad ailgylchu, nid yw wedi adnabod sefydliadau patrymol. Felly, nid yw deilliannau gwella penodol nac opsiynau ar gyfer strategaeth hirdymor wedi dod i'r amlwg eto.
29. Bu rhywfaint o gydweithio ym maes gwastraff, er enghraifft gyda Claire Wales[5] a WRAP, i ystyried perfformiad a gwaith cynghorau eraill. Mae hyn wedi cynnwys cynghorau megis Abertawe a Chasnewydd, yn ogystal â chynghorau yn Lloegr.
30. Mae enghraifft o'r cydweithio gyda WRAP yn cynnwys adolygiad o seilwaith ailgylchu sydd ar gael mewn Tai Amlfeddiannaeth a fflatiau yng Nghyngor Caerdydd a Chyngor Abertawe. Mae'r Cyngor yn cydweithio i ddeall a dysgu o wahanol ddulliau o fynd ar drywydd ailgylchu gyda golwg ar roi'r gwersi hyn ar waith i sicrhau gwelliannau i wasanaethau.

[5] Pedwar o awdurdodau lleol Cymru yn y grŵp Collaborating Local Authorities in Resource Efficiency (CLAIRE) Wales.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.